Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Ffordd Cefn Yr Hendy
Meisgyn
Pont-y-clun
Rhondda Cynon Taf
CF72 8TL

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 213 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 164 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 21.7%) | 3.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 45.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydyn |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/09/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy’n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ethos cynhwysol, gofalgar a Chymreig yn treiddio drwy bob agwedd. Mae hyn yn cyfrannu’n gryf at les disgyblion a staff ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol ac yn defnyddio’r Gymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn datblygu’n gadarn yn y Gymraeg a’r Saesneg, ac mae llawer o’r disgyblion hŷn yn ysgrifennu’n aeddfed ac yn mynegi syniadau’n greadigol. Mae medrau mathemateg a rhifedd disgyblion yn gadarn ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus wrth gwblhau tasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae’r cwricwlwm yn darparu profiadau diddorol a pherthnasol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu syniadau ac i ddylanwadu ar agweddau ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith ac yn datblygu hunanhyder a medrau arwain yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, mae athrawon yn gor arwain y dysgu sy’n cyfyngu ar gyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu y tu fewn a thu allan i’r dosbarth.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol cryf. Mae staff yn ymholi’n bwrpasol ac yn cydweithio’n fwriadus i wella addysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn i nodi cryfderau a blaenoriaethau gwella’r ysgol. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol ac yn hyrwyddo presenoldeb uchel, gan gael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chynnydd disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn cyfrannu’n briodol at weithdrefnau gwella’r ysgol, er bod lle i gryfhau eu rôl wrth herio a gwerthuso effaith y ddarpariaeth. Mae perthynas agos yr ysgol â rhieni a’r gymuned yn gryfder amlwg sy’n cefnogi lles a datblygiad disgyblion yn llwyddiannus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd cyson i’r disgyblion ieuengaf  ddatblygu eu medrau dysgu a chwarae annibynnol tu fewn a thu allan i’r dosbarth.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a hynod effeithiol sy'n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae'n rhannu gweledigaeth gytûn yn llwyddiannus ar draws cymuned yr ysgol. Mae ymdeimlad cynhwysol, gofalgar a Chymreig yn treiddio drwy bob agwedd o waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n gryf at gefnogi lles disgyblion a staff ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y sawl ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Mae gan staff yr ysgol berthynas waith arbennig â'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu caredig, parchus a chefnogol. Mae staff yn modelu iaith yn llwyddiannus a rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar, sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu'n siaradwyr hyderus ac aeddfed o oed cynnar. Dangosant falchder yn yr iaith Gymraeg. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen yn y ddwy iaith yn gryf ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn natblygiad y medrau hyn. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cynhwyso eu medrau ysgrifennu'n feistrolgar mewn ystod o gyd-destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau rhifedd. Trwy gynllunio crefftus, mae dealltwriaeth gadarn a chynnydd dilynol ym medrau'r disgyblion dros amser. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn adalw gwybodaeth a medrau a ddysgwyd yn flaenorol yn effeithiol, ac yn eu cymhwyso'n hyderus wrth iddynt gwblhau eu tasgau yn annibynnol ar draws y cwricwlwm.

### Ciplun: Cymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

Mae athrawon wedi datblygu cwricwlwm ysgogol, creadigol a pherthnasol sy'n ystyried cyd-destun yr ysgol, yr ardal leol a'r byd ehangach yn gelfydd. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn ofalus, drwy eu plethu'n fedrus ar draws bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n hollol naturiol ac annibynnol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Maent yn ymgysylltu'n dda iawn yn eu dysgu ac mae'r cynnwys cyfoes a chyffrous yn ennyn eu diddordeb. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu ac mae'r athrawon yn defnyddio syniadau disgyblion wrth gynllunio gwaith y tymor yn rheolaidd.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i weithio hyd eithaf eu gallu. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn hwyluso dysgu’r disgyblion hŷn i gymhwyso eu medrau’n annibynnol yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn caniatáu i’r disgyblion  wneud dewisiadau cyson dros ddysgu eu hunain ac i weithio a chwarae’n annibynnol y tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Ar adegau, mae amseru cyflwyniadau a thueddiad athrawon i or arwain y dysgu yn llesteirio gallu’r disgyblion ieuengaf i weithio’n annibynnol. Mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a meysydd i’w datblygu trwy ymateb i’w dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwella eu gwaith eu hunain a’u cyfoedion yn annibynnol ac yn adnabod y cynnydd yn eu dysgu.

Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd moesol, ysbrydol, cwrteisi a pharch, fel rhan annatod o’u gwaith. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn rhagorol. Mae staff yn meithrin amgylchedd agored a chefnogol lle mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel. Mae trefniadau pontio cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo’n esmwyth rhwng cyfnodau.

Mae llais y disgybl yn dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol mewn ffordd ystyrlon. Mae aelodau’r pwyllgorau cynrychiolaeth yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed am eu cyfraniadau wrth gynrychioli eu cyfoedion.

### Ciplun: Llais y disgybl i gefnogi lles disgyblion

Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu’n effeithiol at les a datblygiad personol disgyblion. Trwy gyfrannu at benderfyniadau a mentrau’r ysgol, mae disgyblion yn datblygu hunanhyder, medrau arwain a’r gallu i fynegi barn yn aeddfed. Mae mentrau a gynlluniwyd ac a lansiwyd gan y disgyblion eu hunain yn enghraifft drawiadol o weithredu ar lais y plentyn. Mae eu gwaith drwy’r Criw Ysgolion Iach, y Criw Cymraeg a mentrau elusennol fel y siop cyfnewid llyfrau, ‘O Law i Law’, yn meithrin empathi, ymdeimlad o berthyn a dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrannu at les eraill.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn ac effeithiol. Mae staff yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn olrhain cynnydd yn drylwyr. Mae arweinwyr yn gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanwerthuso a gwelliant parhaus. Maent yn defnyddio ystod eang o weithgareddau monitro a gwerthuso i adnabod cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella’r ysgol. Mae arweinwyr yn ymateb yn rhagweithiol i flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig datblygu’r Gymraeg a gwella medrau darllen, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a phrofiadau dysgu disgyblion. Yn

ogystal, mae trefniadau cryf ar gyfer hyrwyddo a monitro presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfraddau uchel.

Mae’r llywodraethwyr yn ymrwymedig ac yn gefnogol iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Maent yn cyfrannu’n briodol at brosesau monitro, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Er hyn, nid ydynt bob tro’n dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon trylwyr am effaith y ddarpariaeth ar safonau a deilliannau disgyblion.

Mae’r pennaeth yn hyrwyddo lles staff yn effeithiol. Mae’n sicrhau bod ystod gynhwysfawr o gymorth, gan feithrin diwylliant cryf lle mae’r rhan fwyaf o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi’n dda. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol effeithiol lle mae staff yn cydweithio’n bwrpasol, yn ymchwilio i’w harferion ac yn defnyddio canfyddiadau i wella ansawdd yr addysgu. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn cysylltu’n effeithiol â blaenoriaethau gwella’r ysgol a datblygiad proffesiynol staff.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni a’r gymuned yn gryfder nodedig sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr ymdeimlad cryf o ethos o berthyn a chefnogaeth. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn arbennig o dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi’r dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/08/2026